

# D. Ben Rees a'r Gwerinwr Deallus o Lanefydd

Mab y Mans oedd Caerenydd Ellis o Lanefydd yn Sir Ddinbych. Yr oedd ei dad, y Parchedig Robert Ellis yn weinidog ar gapel y pentre, Llanefydd a chapel Bontnewydd am gyfnod. Ond roedd hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd ac yn arbennig pan ddaeth pedwar o blant i'w gartref ef a'i briod, Ann. Pan oedd Caerenydd yn ddeg oed (ganwyd ef ym mis Mai 1839 yn Ffordd Dinbych, Llanfair-talhaearn) symudodd ei rieni i wneud tair swydd: trin y tir ar y tyddyn ac yn ei oriau sbâr trin sgidiau fel crydd, a hefyd gofalu am y ddau gapel. Enw'r cartref oedd Blaenyweirglodd, tyddyn yn ardal y Ffynhonnau, ym mhlwyf Llanefydd.

Magwyd Caerenydd yn awyrgylch siop y crydd, galwadau tyddyn a gweithgareddau capel yn y wlad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bu yn rhoddi help llaw i'w dad yn siop y crydd, ond yn wr ifanc adeiladodd dŷ newydd ar dir Penybryn Bach ac fe'i bedyddiodd yn Fryn Celyn. Yno y bu fyw weddill ei ddyddiau. Bu'n briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Ann, merch Robert Roberts, Carwedd Fynydd, a'i ail wraig oedd Margaret Davies o Lan Conwy. Ganwyd dau fab iddynt, Isaac Cadwaladr ac Aled, ac un ferch, Olwen a ddatblygodd yn unawdydd a galw cyson am ei gwasanaeth. Bu farw Caerenydd Ellis ym mis Mai 1919.

Gellir sôn amdano erbyn hyn fel Gwerinwr Diwylliedig, a hynny ar sail ei ysgrifau i'r cylchgrawn *Y Greal* yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ganddo arddull gyfoethog a gafael ar yr iaith. Nid oedd ganddo amynedd o gwbl gydag unrhyw un a fyddai'n esgeulus wrth siarad yr iaith Gymraeg. Gwridai wrth glywed ambell gennad ar y Sul yn siarad bratiaith o bulpud Capel y Pentre.

Yr oedd ef a Peter Williams (Pedr Hir), a fu'n heddegidwad yn Llanefydd, yn ffrindiau mawr. Ysgrifennodd lawer at Pedr Hir, ac y mae ganddo yntau ysgrif ddiddorol a luniodd yn Bootle fel atgofion am Lanefydd. Gwelodd olau dydd yng nghyfrol 1920 o *Seren Gomer*.

Caerenydd oedd gohebydd ei fro ar amgylchiadau o ddydd i ddydd. Meddai ar ddawn Gohebydd yn llythrennol felly. Lluniodd y bardd gwlad Elldeyrn deyrnged i Caerenydd gan ddweud y dylai awdurdodau'r *Faner* ei logi fel



Hen bont Llanfair Talhaearn – pentref genedigol Caerenydd.

lluniwr golygyddol neu fel newyddiadurwr yn null y Gohebydd.

*'Yr wyf wedi bod yn meddwl neithiwr, gresyn na fuasai awdurdodau'r Faner yn eich cyflogi i ysgrifennu y tudalen cyntaf yn wythnosol fel rhyw fath o 'free lancer'. Rhoi digon o raff i chwi i ysgrifennu ar rywbeth ar draws ac ar hyd rywbeth yn debyg i fel y byddai Y Gohebydd ers talwm. Mi wnaf lw y buasai'r tudalen hwnnw yn fendigedig o gymeradwyl.'*

Meddai Caerenydd ar ddiddordeb di-ben-draw yn y mudiad eisteddfodol. Darllenai waith y beirdd ac yr oedd ef ei hun yn gyfarwydd â Cherdd Dafod. Ysgrifennai ar gyfer anghenion y fro, cyfarchion priodas, geni, marwnadau ac aml barodi ar ddigwyddiadau Llanefydd a'r cyffiniau. Ef oedd un o hyrwyddwyr pennaf yr eisteddfod a gynhelid yn Llanefydd yn nechrau'r ugeinfed ganrif, ac anrhydeddwyd ef yn y flwyddyn 1912 yng

Nghapel y Llan am ei gyfraniad cyfoethog i ddiwylliant, crefydd a newyddiaduraeth y fro.

Fel y gellid disgwyl, bu'n deyrngar i'w fagwraeth fel Bedyddiwr Cymraeg. Wedi'r cyfan nid ei dad yn unig oedd yn Weinidog ond ei ewythr, y Parchedig Isaac Ellis. Etholwyd Caerenydd yn ddiakon pan nad oedd ond ifanc. Mynychai Gymanfa Dinbych, Fflint a Meirion yn gyson, a galwyd ef i'w Chadair. Cymerodd fel testun 'Y gweinidog a'r diacon' ac yn ei anerchiad pwysleisiodd yr angen i'r Cymro Cymraeg dorri ei lwybr ei hun yn grefyddol. Iddo ef un o'r sefydliadau gorau ar gyfer meithrin hynny yw'r seiat a ddatblygodd o Ddiwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif. Rhoddodd Saunders Lewis le arbennig i'r Seiat yn ei astudiaeth o'r Pêr Ganiedydd, gan ddweud yn glir iddo roddi ei stamp ei hun ar y cyfarfyddiad.

Dyma eiriau Saunders Lewis

yn Williams Pantycelyn (Llundain 1927):

*'Yn ôl ei dystiolaeth ei hun bu'n cadw Seiat o'r pryd y dechreuodd farddoni. Ef yn anad neb a roes iddi ei lle ym mywyd crefyddol y Methodistaidd ac a luniodd ei method a'i threfn. Bu eraill yn bregethwyr enwocach, ond yn y Seiat ni bu o'r holl ddiwygywyr ail iddo ef.'*

Gan mlynedd ar ôl Pantycelyn yr oedd Caerenydd Ellis yn gweld gwerth mawr yn y Seiat. Ond i ni nid yw'r sefydliad yn ateb ei ddiben, yn wir aeth trafod yn ddeallus yn beth digon dieithr. Colled fawr yw hynny, ac mae'n rhaid chwilio cyfryngau a wna'r gwaith heb golli'r cyfle. Radio a theledu yn ein dyddiau ni.

Nid dyn heb ysbyrd menter oedd Caerenydd Ellis, a chyn cau pen y mwdwl, dylwn grybwyll un peth arall hynod o bwysig, sef ei radicaliaeth. Ef oedd un o arweinwyr pennaf Rhyfel y Degwm yn Llanefydd a'r cyffiniau yn y ddwy flynedd gythryblus, 1887 a 1888. Yr oedd Llanefydd fel Llangwm a Llanarmon-yn-Iâl yn ganolfannau'r gwrthryfel Gwerinwr deallus oedd Caerenydd Ellis, ymhyfrydai yn ei lyfrau, yn ei fro a'i phobl, siaradai heb flewyn ar dafod, ond amlygai garedigrwydd a chydymdeimlad. Y *Faner* oedd ei bapur. Gwelir ei lythyron yno. Siaredid amdano ddeg mlynedd ar hugain ar ôl ei farw fel ag y tystiodd un o weinidogion y Bedyddwyr, y Parchg E. Bryn Jones, a ddaeth i Lanefydd. Go brin fod y cof amdano yno heddiw ond bydd y deyrnged hon yn fodd i'w adnabod.

## Enillwyr Raffl Fawr Cymdeithas Bob Owen

Cloc Porthmeirion – Mrs Ann Lloyd, 64 Heol Abertawe, Llanelli SA15 3AZ

Cawg Grisial o ganolbarth Cymru – Mrs Avril Davies, 23 Heol Cae Cerrig, Pontarddulais, Abertawe SA41 4IPE

Casgliad o gyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol – Mr Tony Bianchi, Caerdydd

Basged o nwyddau Cymreig – Dr Neville Evans, 29 Ravenbrook, Morgantown, Caerdydd CF15 8LT

Llun mewn ffram – (rhodd gan Awen Meirion, Y Bala) – Mr Huw Jones, 1 Heol y Betws, Betws, Rhydaman SA18 2HE

Tocyn llyfr – Mrs M. Davies, Llety'r Alaw, Stryd Tŷ Glyn, Aberaeron, Ceredigion SA46 0JB

Tocyn record/CD – Miss Anet Thomas, Morallt, Llanengan, Pwllheli LL53 7LG

Tanysgrifiad Blwyddyn i'r Casglwr – Mrs Betsan Roberts, 80 Kimberley St, Penylan, Caerdydd

Tanysgrifiad Blwyddyn i'r Casglwr – Mrs Rachel Williams, 8 Hedley Terrace, Llanelli SA15 3RE